ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #188
22 Mehefin 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Codi o'r Soffa: colegau yng Nghymru ar genhadaeth i ddod o hyd i weithgareddau corfforol addas i bawb

Nid yw pawb yn naturiol hoff o chwaraeon. Ond gallai y rhan fwyaf ohonom wneud tro â bod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae dod o hyd i weithgareddau corfforol sy'n addas ar gyfer pob myfyriwr coleg yn genhadaeth i Chwaraeon Colegau Cymru, ac mae bron 300 o staff a myfyrwyr newydd fod yn rhoi tro ar yr ystod sydd ar gael.
Mwy>>>

Cip gyntaf ar gampws newydd canol y ddinas gwerth £45m

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James AC, yw'r cyntaf i gael cipolwg ar gampws newydd sbon nodedig gwerth £45m Coleg Caerdydd a'r Fro yng nghanol dinas Caerdydd, cyn ei wythnos lansio swyddogol rhwng dydd Llun 29ain Mehefin a dydd Sadwrn 4ydd Gorffennaf.
Mwy>>>

Cyfleoedd dysgu gydol oes fforddiadwy yn y gymuned ar eu ffordd

Mae Coleg Sir Benfro wedi derbyn £249,206 mewn grant tair blynedd gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer prosiect fydd yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes fforddiadwy yn y gymuned i bobl ar hyd a lled Sir Benfro a Cheredigion. Bydd y cyrsiau yn cael eu darparu mewn lleoliadau cymunedol lleol a chaiff ei gyflwyno ar gyfradd is.
Mwy>>>

Staff Colegau o Ansawdd

Artist sydd hefyd yn ddarlithydd yn ennill swydd breswyl i wneud ymchwil yng Nghaerdydd

Mae artist gweithredol sydd hefyd yn ddarlithydd yn y diwydiannau creadigol yng Ngholeg Sir Gâr wedi cael swydd breswyl yn y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Dylunio ac Ymchwil, sydd wrthi'n ymchwilio i artistiaid a'u defnydd o dechnoleg.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Sefydlu Salon Deuluol

Mae prentis Trin Gwallt yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, Connor Marks, wedi sefydlu ei salon ei hun yn y Barri, fydd yn dod yn fusnes gwlb deuluol.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Myfyrwyr yn Ennill Medalau Mewn Cystadleuaeth Gemeg Genedlaethol

Mae tri o fyfyrwyr Lefel A Grŵp Llandrillo Menai wedi cael eu henwi'n rhai o fyfyrwyr cemeg gorau Prydain ar ôl derbyn medalau a chymeradwyaeth mewn cystadleuaeth gemeg genedlaethol, Olympiad Cemeg Prydain 2014-15.
Mwy>>>

Dyluniad peirianneg buddugol

Mae myfyriwr Coleg Sir Gâr, Max Wiseman, wedi ennill Tarian Prosiect 2015 John Hancock am ei sgiliau mewn peirianneg amaethyddol.
Gwobr flynyddol yw Tarian Prosiect John Hancock a gyflwynir i fyfyriwr peirianneg amaethyddol am y dyluniad neu addasiad gorau i gynnyrch peirianneg sydd eisoes yn bod.
Mwy>>>

Myfyrwyr Coleg yn ennill Cap dros eu gwlad

Mae tri myfyriwr o academïau chwaraeon Grŵp Llandrillo Menai yng Ngholeg Llandrillo - Georgina Outten, Elin Harlow a Rosie Williams wedi ennill eu capiau mewn athletau, sboncen a phêl fasged cadair olwyn yn ôl eu trefn.
Mwy>>>

Myfyriwr yn Gwneud Gwaith Rheoli yn Israel

Mae myfyriwr gradd o Grŵp Llandrillo Menai newydd ddychwelyd o daith i Israel ar ôl ennill gwobr Ewropeaidd i gymryd rhan mewn tasg reoli strategol i wella deiliadaeth mewn gwestai.
Enillodd Ffion Davies, sy'n astudio'r Celfyddydau Coginio, 'Wobr Marianne Muller 2015', gan fynd ar daith pum

niwrnod, wedi ei dalu i Tel Aviv.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Bwyty'n dangos celfyddyd y dull Eidalaidd o goginio i fyfyrwyr

Mae myfyrwyr yng Ngholeg Sir Gâr sy'n dysgu sgiliau cymdeithasol a phersonol fel rhan o gwrs lefel mynediad, wedi cael cyfle i fwynhau bore o wneud pizza ym mwyty ASK Italian yn Abertawe.
Mwy>>>

Colegau yn arddangos doniau myfyrwyr

Dyfarnu gwobrau yng Ngholeg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi anrhydeddu myfyrwyr rhagorol yn ei seremoni Wobrwyo Blynyddol, gan gynnwys Annie Fox: myfyrwyr, gweithwyr a gofalwyr ifanc, a enwyd yn enillydd Myfyriwr Ysbrydoledig y Flwyddyn.
Mwy>>>

Myfyrwyr Celf a Dylunio yn arddangos talent creadigol

Cafodd artistiaid lleol, aelodau o'r cyhoedd, darpar fyfyrwyr a rhieni y cyfle i weld y doniau creadigol sydd ar gael yn y Coleg Merthyr Tudful fel rhan o arddangosfa diwedd blwyddyn o gelf myfyrwyr, dylunio a gwaith ffotograffiaeth 'Arddangos 15'.
Mwy>>>

Coleg yn dathlu blwyddyn eithriadol o gyflawniadau ym myd chwaraeon

Mae'r Coleg Merthyr Tudful wedi dathlu blwyddyn eithriadol o gyflawniadau yn ei 'Noson Ddathlu Chwaraeon' diweddar.
Mae'r gwobrau yn cydnabod cyflawniadau academaidd, gwirfoddol, arwain, perfformio, cyfoethogi, hyfforddi a chyflawniadau tîm.
Mwy>>>

Cwestiwn Moesol yn Agoriad Llygaid Ehangach yng Arddangosfa Coleg

Bu myfyrwyr Ffasiwn a Thecstilau, Graffeg, Cyfryngau Rhyngweithiol, Celfyddyd Gain, Ffotograffiaeth a Sylfaen yn arddangos eu creadigaethau yng Ngholeg Sir Benfro yn ddiweddar gan ddatgelu dyfnder o feddwl a mynegiant sy'n sefyll y myfyrwyr creadigol ar wahân i'r gweddill.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB